**EPT-01-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 17 Ionawr 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:30 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

## Presenoldeb:

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst | Alyn a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Sir Gaerfyrddin a Dinefwr |

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| John Lloyd Jones (eitem 5) | Cadeirydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Paul Loveluck (eitem 5) | Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Roger Thomas (eitem 6) | Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |

| | |
|---|---|
| Andrew Harvey (eitem 6) | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Caerwyn Roberts (eitem 7) | Cadeirydd, Grp Cymru o'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) |
| Iwan Huws (eitem 7) | Ysgrifennydd, Grp Cymru o'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) |
| Martin Fitton (eitem 7) | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Nic Wheeler (eitem 7) | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr Grp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Denzil Jones (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Kay Powell (eitemau 3 a 4) | Pennaeth yr Is-adran Cynllunio |
| Lindsay Roberts (eitem 3) | Yr Is-adran Cynllunio |
| Bob Evans (eitem 4) | Yr Is-adran Cynllunio |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau, y swyddogion, ac aelodau o'r cyhoedd i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd. Hysbysodd y pwyllgor fod Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

2000/03 wedi cyfarfod ar 14 Rhagfyr a diolchodd i Sue Essex, Tom Middlehurst a Rhodri Glyn Thomas am drefnu i fod ar gael.

0.2 O ystyried yr angen i wneud cynnydd wrth roi darpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar waith yng Nghymru, byddid yn dod â'r papur hwnnw ymlaen i 14 Chwefror, gan symud y papur ar ddewisiadau ar gyfer etholiadau uniongyrchol i'r Parciau Cenedlaethol yn ôl i 4 Ebrill.

0.3 Byddai'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol Cysgodol yn rhoi cyflwyniad anffurfiol ar fasnachfreinio i'r pwyllgor ar 31 Ionawr rhwng 12.30 a 1.30 p.m. Byddid yn defnyddio'r lle ychwanegol a fyddai ar gael yng nghyfarfod y pwyllgor ar 8 Chwefror ar gyfer trafodaethau anffurfiol ar yr adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyadau, a datganiadau o fuddiant**

1.1 Gwahoddwyd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant o dan Reol Sefydlog 4.5 ac yr oedd y rhain fel a ganlyn:

- Geraint Davies - aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Mick Bates - partner mewn busnes ffermio

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-01-01 (p 1)

2.1 Yn ogystal â'r eitemau yn yr adroddiad, rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y cynnydd mewn materion ansawdd aer. Yr oedd ymarfer ymgynghori'n mynd rhagddo ar ddulliau newydd o adrodd gwybodaeth difwyniad aer ar ffurf hwylus i'r defnyddiwr. Yr oedd y ffigurau monitro dros dro yn dangos gwelliant o 10 y cant yn ansawdd yr aer y llynedd, er hynny yr oedd ansawdd yr aer yn parhau'n isel o gwmpas Port Talbot. Yr oedd gwybodaeth am Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gael ar y rhyngrwyd ers 5 Ionawr.

2.2 Cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Yr arfer gorau mewn Rheoli Gwastraff - yr oedd sawl awdurdod yn y DU wedi eu dynodi oherwydd eu harfer da mewn rheoli gwastraff. Byddai'r Gweinidog yn gwahodd aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ymuno ag unrhyw ymweliadau i edrych ar yr arfer gorau;

- Mastiau Telathrebu - yr oedd pryder ynghylch y cynnydd ymddangosiadol yn nifer y ceisiadau am fastiau a gâi eu prosesu cyn i arweiniad newydd ddod i rym. Dywedodd y swyddogion fod 50 o ymatebion wedi eu derbyn i'r ddogfen ymgynghorol, bod y rhain yn

cael eu dadansoddi a bod cynigion drafft wedi eu hamserlennu i'w rhoi gerbron y Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf;

- Penodiadau Cyhoeddus - yr oedd pryder ynghylch cydbwysedd rhwng y rhywiau a'r angen i fonitro hynny. Yr oedd y Cabinet yn gweithio ar weithdrefnau i annog benywod a phobl o amrediad o wahanol gefndiroedd i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus;

- Llifogydd - yr oedd llythyr wedi ei anfon at yr holl awdurdodau lleol gydag arweiniad ar ddatblygiadau mewn ardaloedd lle'r oedd perygl o lifogydd. Gofynnodd yr aelodau am wneud cais i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi datblygiadau mawr a oedd ar fin cychwyn mewn ardaloedd lle y mae perygl o lifogydd. Yr oedd angen sicrhau hefyd fod y seilwaith yn gallu cynnal datblygu, yr oedd y Gweinidog yn rhoi sylw i'r mater hwn gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol;

- Grant Trafnidiaeth – yr oedd y Gweinidog wedi cyhoeddi rhaglen fuddsoddi ar 11 Ionawr. Er mai rhaglen bum mlynedd oedd hon, byddid yn gwahodd ceisiadau pellach yn yr ail i'r bedwaredd flwyddyn. Nid oedd y Pwyllgor wedi ymwneud â'r broses ddyrannu, ond ymgynghorwyd ag ef ynghylch y meini prawf. Awgrymodd yr aelodau y dylid gwneud cyhoeddiadau yn y dyfodol drwy ddatganiad ffurfiol yn y Cyfarfod Llawn, gan y byddai hynny'n rhoi cyfle i'r aelodau wneud sylwadau ar faterion strategol sydd yn ymwneud â'r dyraniadau;

- Tirlithriadau - byddid yn cynnal seminar i edrych ar sefydlogrwydd tomennydd. Er ei fod wedi ei anelu'n bennaf at swyddogion technegol mewn awdurdodau lleol, byddai croeso i aelodau'r pwyllgor fod yn bresennol;

- Teithio Rhatach - mae bron bob un o'r awdurdodau lleol yn cynnig tocynnau am hanner pris i bensiynwyr a phobl ag anableddau, tra oedd tocynnau mantais ar gael fel dewis arall mewn rhai awdurdodau. O 1 Ebrill 2001 bydd trwyddedau bws am ddim a bydd teithio am ddim hefyd o 1 Ebrill 2002. Gallai awdurdodau lleol barhau i gynnig tocynnau mantais fel dewis arall os byddai hynny'n fwy priodol i rai pobl;

- Ynni Adnewyddadwy – byddid yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am unrhyw faterion na allai'r Grp Ymgynghorol Technegol benderfynu arnynt. Câi'r aelodau'r un cyfle â'r arfer i wneud sylwadau ar y Nodyn Cyngor Technegol cyn ei ddosbarthu ar gyfer ymgynghori cyhoeddus;

- Ardaloedd Arbennig Cadwraeth - gofynnodd yr aelodau am restr o'r holl ddarpar ardaloedd yng Nghymru;

- Penderfyniadau Cynllunio ac Iawnderau Dynol - yr oedd yr aelodau'n bryderus bod y gweithdrefnau penderfyniadau cynllunio presennol yn groes i Erthygl 6 o'r Ddeddf

Iawnderau Dynol. Nodwyd, er y cafwyd mewn achos prawf yn yr Uchel Lys fod y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn groes i Erthygl 6, fod y llys hefyd wedi penderfynu ei bod yn ofynnol i weinidogion y DU, ac felly'r Cynulliad, ddilyn y gweithdrefnau hyn hyd nes y ceid newid yn y gyfraith. Yr oedd apêl i'w chyflwyno i D'r Arglwyddi a byddid yn ailasesu'r sefyllfa pan fyddai'r canlyniad yn hysbys.

***Pwyntiau Gweithredu***

- *Sue Essex i ddosbarthu rhestr o ddarpar Ardaloedd Arbennig Cadwraeth yng Nghymru*

**Eitem 3: Drafft Terfynol Polisi Cynllunio Cymru** - EPT-14-00 (p 2)

3.1 Gwahoddodd Sue Essex y pwyllgor i gytuno i gyhoeddi drafft terfynol 'Polisi Cynllunio Cymru' ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Diolchodd i'r Fforwm Cynllunio ac i'r swyddogion am eu gwaith caled. Gwnaethpwyd newidiadau yn adran 10.1 ar "Leiniau Glas", a byddid yn ei dosbarthu i'r aelodau ar ôl y cyfarfod.

3.2 Croesawodd yr aelodau y ddogfen ac ategu'r gwerthfawrogiad o'r gwaith a gyflawnwyd. Gofynnodd y pwyllgor am roi ystyriaeth bellach i'r materion canlynol, ond na ddylent ohirio dechrau'r broses ymgynghori:

- effaith datblygu ar iechyd;
- atgyfnerthu ymrwymiadau i gydraddoldeb;
- materion tai, yn enwedig mewn perthynas ag ail gartrefi;
- ailddefnyddio adeiladau amaethyddol;
- agwedd fwy cadarnhaol at ynni adnewyddadwy;
- statws cyngor Asiantaeth yr Amgylchedd ar y perygl o lifogydd;
- mannau agored.

3.3 Awgrymodd yr aelodau y dylai'r Cynulliad weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau gweithredu'r canllawiau newydd, ar ôl eu sefydlu. Gallai hynny gynnwys hyfforddiant i swyddogion cynllunio lleol ac aelodau o bwyllgorau cynllunio.

3.4 Cytunodd y pwyllgor y dylid cyhoeddi 'Polisi Cynllunio Cymru' drafft, gyda newidiadau yn adran 10.1 a rhai newidiadau pellach ac aildrefnu, ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

***Pwyntiau Gweithredu***

- *Sue Essex i ddosbarthu'r newidiadau arfaethedig yn adran 10.1 "Lleiniau Glas" yn y ddogfen ymgynghorol ddrafft i aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth*

**Eitem 4: Adolygiad o Weithdrefnau Penderfyniadau Cynllunio** - EPT-01-01 (p 3)

4.1 Gofynnodd y Gweinidog am farn y pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig mewn gweithdrefnau penderfyniadau cynllunio, gan gynnwys cyflwyno targedau. Byddai'r newidiadau'n dod â mwy o hyblygrwydd ac yn ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau o fewn cyfnod rhesymol.

4.2 Croesawodd yr aelodau'r cynigion, ond yr oedd ganddynt rai pryderon ynghylch adolygu'r garfan o aelodau a oedd yn gymwys i eistedd mewn Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn drafftio cynigion am newidiadau yn y rheolau sefydlog fel y nodwyd yn y papur. Yn y cyfamser, byddai'r aelodau'n ymgynghori â'r priod grwpiau plaid cyn cyflwyno'r cynigion i'r Pwyllgor Busnes.

**Eitem 5: Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Monitro Perfformiad**

- EPT-01-01 (p 4)

5.1 Cyflwynodd John Lloyd Jones a Paul Loveluck y papur, gan nodi nifer o faterion a wynebwyd dros y cyfnod adrodd. Mynegodd John Lloyd Jones ar goedd ei edmygedd a'i ddiolch i staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru am eu gwaith.

5.2 Yn eu cwestiynau canolbwyntiodd yr aelodau ar fethiant Cyngor Cefn Gwlad Cymru i gyrraedd targedau mewn perthynas â:

- Derbyniad cytundebau Tir Gofal – yr oedd Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi adolygiad o'r cynllun. Yr oedd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru newidiadau i'w hargymell yng ngoleuni profiad a fyddai'n gwella'r dull darparu. Nodwyd, er bod nifer y ffermydd yn is na'r disgwyl, fod yr hectarau o dir a gynhwyswyd yn y cynllun yn uwch na'r hyn a ragwelwyd. Byddai Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n darparu gwybodaeth fanwl bellach ar dderbyniad y cynllun i'r pwyllgor;

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – yr oedd y methiant i gyrraedd rhai o'r targedau'n ganlyniad i'r angen i droi staff at waith â blaenoriaeth uwch i'r Cynulliad ar gynllun Nature 2000 yr Undeb Ewropeaidd, ond yr oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n disgwyl cyrraedd y targed o 40 o hysbysiadau eleni. Byddai'r adnoddau ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn galluogi'r corff i ymaddasu er mwyn trafod rhaglen waith a oedd yn fwy o lawer;

- Hawliau Tramwy – Yr oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi ymgynghori â'r awdurdodau lleol ac yr oedd newid pwyslais eleni er mwyn hyrwyddo'r defnydd o hawliau tramwy gan y cyhoedd. Yr oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn canolbwyntio ar gynorthwyo gwelliannau mewn hawliau tramwy yng nghyffiniau canolfannau poblogaeth neu

atyniadau twristaidd, er mwyn helpu i amlhau'r niferoedd a gâi fudd o'r gwelliannau a wneid. Gallai'r newid pwyslais hwn arwain at leihau hyd yr hawliau tramwy a gâi eu gwella, ond yr oedd y gwaith yn mynd rhagddo'n dda.

***Pwyntiau Gweithredu***

- *Cyngor Cefn Gwlad Cymru i ddarparu gwybodaeth fanwl ar dderbyniad y Cynllun Tir Gofal i aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth*

**Eitem 6: Asiantaeth yr Amgylchedd - Monitro Perfformiad** - EPT-01-01 (p 5)

6.1 Cyflwynodd Roger Thomas y papur a thynnodd sylw at berfformiad yr Asiantaeth yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys y gweithgareddau llifogydd diweddar.

6.2 Yn eu cwestiynau canolbwyntiodd yr aelodau ar y meysydd canlynol:

- Camau Gorfodi – gofynnodd y pwyllgor am wybodaeth bellach ar gamau gorfodi, yn enwedig canran y cwynion yr oedd yr Asiantaeth wedi gweithredu arnynt;

- Trwyddedu - yr oedd adnoddau wedi eu trosglwyddo i'r Asiantaeth ar ôl ei chreu o'r awdurdodau blaenorol. Yr oedd hyn yn hwyluso dyrannu mwy trefnus ac effeithiol ar adnoddau er mwyn trafod yr ôl-groniad, ond yr oedd angen cyllid pellach;

- Digwyddiadau Difwyno – gofynnodd y pwyllgor am gopïau o'r meini prawf a ddefnyddid wrth asesu'r flaenoriaeth a roddid i ddigwyddiadau difwyno y rhoddid gwybod amdanynt;

- Addysg – yr oedd prosiect mawr yn mynd ymlaen ac yr oedd yr Asiantaeth yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i hybu ymwybyddiaeth;

- Dr ymdrochi – yr oedd ymchwil yn digwydd i'r gostyngiad mewn safonau. Yr oedd difwyno gwasgarog a chyflwr gwael y tywydd yn ffactorau tebygol;

- Cynllunio a Pherygl o Lifogydd – yr oedd yr Asiantaeth yn gweithio'n agos â swyddogion cynllunio lleol, ac yr oedd yr agweddau meddwl yn dechrau newid. Fodd bynnaf, yr oedd yr awdurdodau ar arfordir gogledd Cymru'n parhau i gymeradwyo datblygiadau mewn ardaloedd lle'r oedd perygl o lifogydd, yn groes i gyngor yr Asiantaeth.

***Pwyntiau Gweithredu***

- *Asiantaeth yr Amgylchedd i ddarparu ffigurau pellach ar achosion gorfodi, yn enwedig canran y cwynion lle y cymerwyd camau gorfodi*

- *Asiantaeth yr Amgylchedd i ddarparu'r meini prawf a ddefnyddir wrth asesu'r flaenoriaeth a roddir i ddigwyddiadau difwyno y rhoddir gwybod amdanynt*

**Eitem 7: Parciau Cenedlaethol - Monitro Perfformiad** - EPT-01-01 (p 6)

7.1 Cyflwynodd Caerwyn Roberts ac Iwan Huws y papur ar ran Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, a thynnwyd sylw gan bob Swyddog Parc Cenedlaethol at faterion a chyflawniadau yn eu Parc dros y cyfnod adrodd.

7.2 Llongyfarchodd y pwyllgor Martin Fitton ar ei symudiad cyn hir i arwain Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Prydain Fawr o Gaerdydd.

7.3 Gan fod yr amser yn gyfyngedig, canolbwyntiodd yr aelodau ar y meysydd canlynol:

- Targedau a dreiglwyd ymlaen - gofynnodd y pwyllgor i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddarparu manylion am y gweithgareddau hynny ar gyfer 1999-2000 a dreiglwyd ymlaen i 2000-01 nad oeddent yn ymddangos yn y papur;

- Ceisiadau cynllunio - dim ond Parc Cenedlaethol Sir Benfro a oedd wedi adrodd ar gyfer y targed o brosesu ceisiadau cynllunio o fewn 8 wythnos;

- Cerbydau llesol i'r amgylchedd – yr oedd y Parciau'n defnyddio cerbydau nwy petrolewm hylifol, ond yr oedd nifer y cyflenwyr nwy petrolewm hylifol yng Nghymru yn gyfyngedig ar hyn o bryd, ac yr oedd hyn yn rhwystro newid i ddefnyddio cerbydau nwy petrolewm hylifol yn unig;

- Integreiddio polisïau a rhaglenni – yr oedd y Parciau Cenedlaethol yn cyflawni nifer o flaenoriaethau allweddol y Gweinidog ar hyn o bryd, ond teimlent y gallent gynnig mwy i'r Cynulliad.

7.4 Yr oedd trafodaethau'n mynd ymlaen gyda'r Gweinidog a'i swyddogion ynghylch gosod targedau ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a fyddai'n gyffredin i'r tri Pharc, a dylent ddarparu sail well a mwy gwrthrychol ar gyfer adrodd ar berfformiad i'r Cynulliad yn y dyfodol.

***Pwyntiau Gweithredu***

- *Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddarparu manylion am weithgareddau ar gyfer 1999-2000 a dreiglwyd ymlaen i 2000-01*

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod ar 13 Rhagfyr** - EPT-14-00(min)

8.1 Derbyniodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

9.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ar ddydd Mercher 31 Ionawr 2001 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ionawr 2001**